# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fawrth, Hydref 10fed 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Huw Charles, Arwel Davies, Jean Roberts a Catrin Roberts.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 12fed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Prosiect Bioamrywiaeth – **drwy gydweithio gyda Swyddogion Bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol, cytunwyd i baratoi cynllun prosiectau 3 mlynedd ar gyfer gwahanol fudiadau yr ardal**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Gorchymyn (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Meirionnydd) (Cyfyngiad Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023 - **trafodwyd os oedd posib newid y cyfyngiad cyflymder yn nol i 30 m.y.a rhwng yr Orsaf Heddlu a Llyn Tegid.**
ii) Cyllid - Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.
iii) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
iv) Rhybudd cau'r ffordd dros dro ger Bryn Ifan, Arenig ym mis Ionawr 2024.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

v) Ceisiadau Cynllunio.
**Dim ceisiadau wedi cael eu cyflwyno.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau i ddiwedd Medi 2023)- **Cymeradwywyd.**
b) Archwilio Cymru – Archwiliad 2022-23. **Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.**
c) Taliadau – Cyflog a chostau'r clerc & TWE - **Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau Ariannol – Ambiwlans Awyr Cymru - **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**Dim materion wedi cael eu cyflwyno.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 14eg YN NEUADD MAESYWAEN.**